

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ionawr 14dddeg 2015
am 7 - 0 o'r gloch.**

- 1. Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr G Moore (Cadeirydd), Emllyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Delyth Jones, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).
- 2. Ymddiheuriadau:-**
Cyng. Wyn Hughes, Carwyn Jones, Alan Owen, Ann Roberts a Alwyn Rowlands
- 3. Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10fed o Ragfyr fel rhai cywir gan Cyng. E Jones ac eiliwyd gan Cyng. D Roberts.
- 4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Dim materion yn codi.
- 5. Datgan Diddordeb**
- Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
 - Cyng. L Davies ar gais 35C100E.
 - Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol Llangoed
- 6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
- 35C145E - Cais llawn ar gyfer estyniad i'r cwrtil yn Arlunfa, Penmon - dim gwrthwynebiad.
 - Clerc yn adrodd - nid ydi'r Cyngor Sir yn anfon gwybodaeth allan nawr ar ddiwygiadau cynllunio bach a cheisiadau sgrinio, ond y canlyniadau iddynt.
 - Cyng. L Davies yn adrodd bod Gwynedd a Môn yn gweithio ar y gyd ar Cynllun Datblygu Lleol, mapiau allan nawr ar gyfer ymgynghoriad.
- 7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
- 7.10 Wedi derbyn nifer o gwynion am dyllau ar y lôn ganol i Landdona, ac ar ffordd rhwng Penmarian a Glanrafon. Cyngor Sir i wneud y gwaith mor fuan â phosib. Tyllau ger yr Ysgol wedi ei drwsio.
- 7.11 Goryrru trwy'r pentre' - wedi cysylltu ar Cyngor Sir lle maent wedi cytuno gwneud arolwg gyflymder dros 7 diwrnod. Arolwg diwethaf oedd yn Awst 2007. Cyng. D Jones yn adrodd bod 8 o gerbydau wedi cael eu dal yn goryrru gan yr Heddlu yn ystod yr ymarfer olaf ar Bont y Brenin.
- 7.12 Wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir ynglŷn â marciau ffordd ger Cartref wedi gwisgo a bod y dŵr yn casglu yn y pant ar waelod Pont y Brenin.
- 7.13 Wedi ymuno a chyfarfod Cyngor Dref Biwmares, ble codwyd y mater am gyflwr y llwybr wrth Lairds ger y môr. Ar ôl ymgynghori a'r Cyngor Sir lle cytunwyd bod y llwybr ochor arall i'r ffordd yn berffaith derbyniol. Gyda sefyllfa gyllidol yn gwaethygu mae'n anodd iawn blaenoriaethu gwariantar y llwybr yma.
- 7.14 Fydd cynllun atal llifogydd ym Miwmares yn eithriadol o bwysig ar yr ardal yma. Wedi ysgrifennu at Llywodraeth Cymru gan ofyn iddynt fod y cynllun yn cael ei gwblhau'r un pryd i greu tarfu lleiaf cyn y cyfnod gwyliau brig.
- 7.15 Arolwg Ysgol Llangoed, athrawon o dan bwysa mawr. Cwrdd yfory gyda'r arolygwyr, lle rydym yn gobeithio cael briff o'r canlyniad. Penderfynwyd anfon llythyr o werthfawrogiad.
- 7.16 Eglwys Llanfaes - wedi gofyn i Cyngor Tref Biwmares cyfrannu tuag cost cynnal a chadw'r fynwent. Wedi egluro iddynt fod Cynghorau Cymuned leol yn cyfrannu.
- 7.17 Safle Tafarn y Rhyd - nifer o dyllau turio wedi cael eu gwneud ar y safle. Wedi trafod y mater hwn gydag Adran Cynllunio Cyngor Sir, lle eglurwyd fod hyn i'w wneud i fesur faint o amser mae'r dŵr hwyneb yn ei gymryd i lenwi'r tyllau. Hefyd os ydi cynllunio yn cael ei gymeradwyo, na fydd unrhyw dŵr hwyneb yn llifo i mewn i'r system garthffosiaeth, ond i mewn i'r ddaear.
- 8. Neuadd y Pentre'**
Cyfarfod 10/01/15 - problemau gyda diffyg gwirfoddolwyr ar y pwyllgor, hefyd edrych am drysorydd newydd.
Wedi derbyn sic hael gan y cwmni yswiriant ar gyfer gwaith ar nenfwd y Neuadd. Penderfynwyd na ddylent ad-dalu'r rhodd a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned.

Gwaith i wneud blwyddyn yma - peintio'r gwaith coed tŷ allan, trwsio ffrâm ffenestr uwchben y drws ffrynt a thrwsio'r ffens.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 10/01/15 – Simon, Ruth, Emlyn, Gareth ar Clerc.

- Trafodwyd rhestr gwaith cynnal a chadw ar gyfer 2015
- Cyng. G Moore - llwybr o gefn car parc Bont y Rhyd lawr at Ion concrit yn fwdlyd iawn. Hefyd llwybr pren yng nghefn y Neuadd wedi pydru.
- Cawsom drafodaeth ynglŷn â diffyg mynediad i'r anabl ar y llwybrau.

10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed

Cyng. D Jones yn adrodd:-

- Yn y broses o wneud cais am grant i bwrcasu swing a fydd yn addas i bob oedran ac anabled.
- Parti Nadolig i'r Plant yn llwyddiannus.
- Gobeithio trefnu prosiect cymunedol gyda'r bobl ifanc ar Heddlu yn ystod yr hanner tymor. Trefnu cyllid ar gyfer pwrcasu bylbiau i'r Sgwâr a threfnu gŵyl Pasg.

11. Hwb Cymunedol

Clerc yn adrodd fod cyfarfod nesaf ar 29/01/15 am 6 o'r gloch yn Ysgol Biwmares.

Ar ddeall byddant yn uwchraddio'r lolfeydd yn Llangoed a Llanddona, a bod Neuadd y Pentre' yn cael Wi-Fi, a bydd y prif Hwb Cymunedol ym Miwmares.

12. Materion Carthffosiaeth

Cyng. L Davies wedi bod yn annog pobl i gysylltu â Bwr Dwr a Cyfoeth Naturiol Cymru. Nifer o bobl wedi cysylltu ag ef ac ym mhryderus iawn am y mater parhaus yma. Cyngor Sir nawr yn rhoi pwysa ar y Dwr Cymru.

Wedi derbyn llythyr ganddynt lle maent yn egluro bod technegydd llygredd wedi bod ar y safle ac ni welwyd unrhyw falurion carthion yn mynd i'r afon. Gosodwyd baggiau sand fel mesur gofalus. Maent hefyd wedi edrych yn y "manholes" a bod y system hydrologig wedi gorlwytho. Mae hynny oherwydd bod y beipen ddim yn gallu ymdopi a maint o lif, neu am ei fod rhy fach neu fod dilyn glaw trwm mae dŵr gwyned a draeniau tir yn mynd i mewn i'r system.

Penderfynwyd gofyn i gynrychiolydd o Bwr Dwr fynychu ein cyfarfod nesaf.

13. Gerddi Haulfre

Cyng. L Davies wedi cyfarfod heddiw gyda H Griffiths, A Jones ac A Rowlands (CSYM) ac Andrew Jones (Cyfenter) i drafod Canolfan Byron a Gerddi Haulfre.

Maent yn gweld potensial mawr gyda safle'r Gerddi. Penderfyniad ydi mynd i ymgynghori pellach gyda golwg ar edrych ar gael rhywun o'r trydydd sector i mewn.

Wedi derbyn llythyr gan Cyngor Dref Biwmares lle mae'r cynghorwyr yn pryderu bod yr ymgynghoriad wedi bod yn gul iawn, ac wedi gwahodd swyddog o'r Cyngor Sir i gyfarfod yn Neuadd y Dref naill ar 2/02 neu 02/03.

14. Cyfrifon

Penderfynwyd talu cyflog y Clerc, Hydref/Rhagfyr 2014 - £425.39

Incwm

Fynwent y Plwyf - £150.00

3ydd Archeb 2014/15 - £3,143.33

15. Archeb 2015/16

Cawsom drafodaeth ynglŷn â gosod yr archeb ar gyfer 2015/16. Penderfynwyd bod ein gwaith cynnal a chadw a chostau yswiriant yn debygol o gynyddu gyda chwyddiant. Derbyniwyd cynnig gan Cyng. E Jones i godi yr archeb o 2%, eiliwyd gan Cyng. K Williams, gyda phawb yn gytŷn.

16. Gohebiaeth

Llythyr – Bwr Dwr, carthion lleol.

Llythyr – Cyngor Dref Biwmares, ymgynghoriad Gerddi Haulfre.

Llythyr – National Grid, llinell trydan

Llythyr – SLCC, cwrs cyllideb 10/02/15

e-bost - J S Wood, cwyn am gyflwr Lôn Wern.

e-bost - Cyngor Sir, cyfarfod Cymunedol 29/01/15 am 6 o'r gloch yn Ysgol Biwmares.

e-bost – Cyngor Sir, Ffurflen Grant Gwella Amgylchedd

e-bost – Cyngor Sir, Enwebiadau Blwyddyn Newydd 2016

e-bost – Cyngor Sir, cyfarfod Cyswllt Cynghorau Dref a Chymunedau 21/01/15 am 7 o'r gloch yn y Cyngor Sir.

e-bost - Daily Post, cais ar gyfer derbyn yr agenda

e-bost – Cyng. L Davies, llifogydd Biwmares.

Apêl - Eisteddfod Môn gan Bro Goronwy

17. UFA:

17.1 PCSO N Tookey yn symud i weithio yn ardal arall. PCSO Caitlin McGonigle ydi'r aelod newydd yn yr ardal hon nawr.

17.2 Cyng. D Jones wedi derbyn cwyn gan J Briggs – rhigol ar Lôn Wern wedi rhwystro. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r mater hwn, ond yn anffodus mae yn cael ei dosbarthu fel blaenoriaeth isel.

17.3 Cyng. M Ellis - llifogydd ar y ffordd ger Hendre Boeth a ger mynedfa i Fferm Fargen Wen

17.4 Marciau'r ffordd ger yr Ysgol wedi gwisgo.

17.5 Godwyd pryderon ynghylch cyflwr y wal yn Lleiniog. Hefyd pryder am y twll yn wal ger tir y Cyngor Cymuned, gyda'r phosib iddo ddisgyn. Byddai hyn yn achosi problemau enfawr ar gyfer gael nwyddau i'r Fferm Bysgod. Cyng. L Davies i ysgrifennu at y Cyngor Sir.

17.6 Esboniodd y Clerc nad yw ar gael ar gyfer cyfarfod 11fed o Fawrth, gan awgrymu newid y dyddiad i'r 4/03/15.

17.7 Swyddfa Post a Siop yn cau diwedd mis Mawrth, colled mawr i'r Pentre'.

17.8 Clerc i ddiweddarau gwefan y Cyngor Cymuned.

17.9 National Grid wedi penderfynu gosod llinell uwchben newydd ar beilonau o'r Atomfa newydd yn Wylfa i'r orsaf ym Mhentir, gyda'r llinell yn mynd o dan ddaear yr Afon Menai.

17.10 Cawsom gais gan Tom Davidson o'r swyddfa'r Daily Post, gofyn am gopi o'n hagenda? Cytunwyd.

17.11 Trafodwyd yr angen i wneud y cofnodion yn ddwyieithog ar gwaith ychwanegol ar gyfer y Clerc. Penderfynwyd gwneud y cofnodion yn ddwyieithog ag i gychwyn mis Ebrill.

17.12 Ffurflen grant Gwella Amgylchedd – dyddiad cau 27/03/15. I drafod ymhellach.

17.13 Trafodwyd arwydd LED cyflymder sy'n fflachio.

18. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 11/02/2015

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad